

# Arbedion Effeithlonrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: Cam 1

3 Chwefror 2014

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Arbedion Effeithlonrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: Rhan 1

Croesawa UCAC y cyfle i ymateb yn ffurfiol i Ran Un o'r ymgynghoriad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli 250 o addysgwyr yn y sir.

Hyderwn y bydd y drafodaeth yn digwydd ar yr egwyddorion sylfaenol o gyfathrebu clir ac ymgynghori trwyadl.

Yn yr ymateb hwn, byddwn yn canolbwyntio ar Gynnig 12 (Atodiad 12) ynghylch trefniadau cludiant ysgol i ddysgwyr ôl-16 oed. Cynigia'r ddogfen ymgynghorol y dylid dileu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 yn llwyr. Er bod UCAC yn deall yr angen i Awdurdodau Lleol wneud arbedion ar sylweddol ac ar fyrder, gwrthwynebwn y cynnig hwn yn chwyn.

## 1. Cyfrifoldeb statudol i asesu anghenion teithio dysgwyr

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, cymal 2(2) yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Lleol i:

"...asesu anghenion teithio dysgwyr ei ardal ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlyno."

Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddysgwyr:

- hyd at 19 mlwydd oed, a dysgwyr 19 oed a throsodd os ydynt eisoes wedi cychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant cyn cyrraedd yr oedran hwnnw (cymal 2(1))
- sy'n "preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod" (cymal 2(3))

### 1.1. Dysgwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn datgan nad oes, ers mis Medi 2013, fynediad at addysg uwchradd chweched ddsbarth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio o gwbl at y ffaith bod disgyblion yr Awdurdod sy'n dymuno derbyn eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys addysg ôl-16, yn gorfod teithio tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod i dderbyn eu haddysg - yn benodol, i Ysgol Gyfun Rhydywaun, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'n gwbl glir fod y dysgwyr hyn yn ddarostyngedig i gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol i asesu eu hanghenion teithio. Gan nad yw'r ddogfen ymgynghorol wedi cydnabod bodolaeth y grŵp hwn o ddysgwyr wrth werthuso manteision ac anfanteision y cynnig, rydym o'r farn bod yr Awdurdod Lleol wedi esgeuluso'r cyfrifoldeb statudol sydd arno dan gymal 2(2) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

### 1.2. Dysgwyr mewn perygl o ymddieithrio

Ar dudalen 91 o'r ddogfen ymgynghorol, mae gwerthusiad o'r rhestr hir o opsiynau ar gyfer Cynnig 12.

Nid yw UCAC o'r farn bod y frawddeg syml 'Possible impact on NEETS' yn agos at fod yn ddigonol o ran asesiad o'r effaith posib ar y grŵp o ddysgwyr bregus hwn.

Mae pob math o gwestiynau y byddai'n gwbl anhepgorol i'w gofyn, ac i gynnal ymchwil iddynt cyn ei bod hi'n bosib gwneud penderfyniad o blaid dileu'r cludiant am ddim yn llwyr. Er enghraifft:

- Faint o bobl ifanc fyddai'n peidio parhau â'u haddysg petai'n rhaid iddynt dalu am y cludiant?
- Beth fyddai'r goblygiadau – i'r bobl ifanc eu hunain, ac i'r pwrs cyhoeddus – petaent yn ymddieithrio o addysg a hyfforddiant? Faint ohonynt fyddai'n ymuno â rhengoedd niferus y NEETs yn yr Awdurdod?
- Beth fyddai'r trothwy o ran tâl a fyddai'n rhwystro pobl rhag ymgymryd â'r daith? A fyddai gofyn am gyfraniad, ond nid y gost lawn, yn ffordd ymlaen?
- A ystyriwyd cynnig cludiant am ddim i'r myfyrwyr hynny sy'n gymwys i dderbyn EMA o ganlyniad i incwm isel y teulu?

Mae'r diffyg ystyriaeth i'r mathau hyn o gwestiwn yn ategu'r farn a fynegwyd yn 1.1 uchod bod yr Awdurdod Lleol wedi esgeuluso'i gyfrifoldeb statudol dan gymal 2(2) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a bod sail ffeithiol a dadansoddol yr ymgynghoriad hwn yn ddiffygiol.

## 2. Cyfrifoldeb statudol i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae cymal 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn datgan bod:

*"Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn."*

Caiff y gofyniad ei ail-bwysleisio yn Amcan Strategol 1.9 o Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (2010), sef:

*"Hyrwyddo'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth gynradd ac uwchradd statudol cyfrwng Cymraeg, a sefydliadau sy'n darparu addysg bellach ac addysg feithrin, wrth arfer swyddogaethau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008."*

Ni welwn unrhyw dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghorol bod unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r gofyniad statudol hwn.

Yn wir, mi allai torri cludiant am ddim gael effaith andwyol ar y dysgwyr hynny sydd am dderbyn eu haddysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg - ac yn wir ar y sector cyfrwng Cymraeg ei hun yn yr ardal.

Mae UCAC yn gwbl argyhoeddedig y byddai torri'r cludiant am ddim i ddarpariaeth ôl-16 yn golygu y byddai nifer sylweddol o ddisgyblion yn peidio ymgymryd â'r daith, ac yn troi at Goleg Addysg Bellach cyfagos i gael eu haddysg. Mae arolwg sydyn o brospectws a gwefannau Y Coleg Merthyr Tudful, Coleg y Cymoedd a Choleg Pen-y-bont yn dangos nad oes yr un cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael yn 2 o'r colegau, a chyfleoedd prin neu rannau o gyrsiau yn unig yn y llall (heblaw am gwrs TGAU a chwrs Safon Uwch yn y Gymraeg fel pwnc). Rhaid felly fyddai i'r dysgwyr hyn droi cefn ar addysg cyfrwng Cymraeg, a dderbyn addysg cyfrwng Saesneg, yn groes i'w dymuniadau, a gan dorri ar ddilyniant ieithyddol eu haddysg.

Ni fyddai modd diffinio gweithred felly fel 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.'

Yn rhan o ymgynghoriad sy'n ystyried gwneud toriad mor niweidiol, mae UCAC yn gadarn o'r farn y dylai'r Awdurdod Lleol gynnal asesiad effaith o'r cynnig hwn ar y sector cyfrwng Cymraeg o fewn yr Awdurdod Lleol a'r ardal ehangach. Rydym yn hyderus y byddai asesiad o'r fath yn dangos bod toriad o'r fath yn codi cwestiynau difrifol ynghylch:

- a) cynaladwyedd chweched ddosbarth yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg - a fyddai modd parhau â darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg petai'r niferoedd yn lleihau'n sylweddol?
- b) cynaladwyedd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ei gyfanrwydd - a fyddai'r ysgol gyfan yn gynaliadwy o ran niferoedd heb chweched ddosbarth?
- c) yr effaith ar y sector cyfan - a fydd rhieni'n fodlon anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd neu uwchradd) gan wybod nad oes modd parhau â'r ddarpariaeth ôl-16?
- ch) yr effaith ar lif y myfyrwyr i Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, dan adain y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## 3. Cydraddoldeb

Yn ogystal â'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' (Ebrill 2008) ym mharagraffau 1.28-9 yn cyfeirio at yr angen i fod yn ymwybodol wrth roi trefniadau cludiant i'r ysgol yn eu lle, o ddeddfwriaeth gydraddoldeb, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Byddai UCAC yn dadlau bod y cynnig hwn yn tanseilio cyfle cyfartal bob teulu i gael mynediad at addysg ôl-16, ac i gael mynediad at addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, gan roi mantais amlwg i'r rheiny sydd â'r modd i drefnu neu i dalu am y cludiant angenrheidiol i'w plant, neu i'r rhai sy'n byw agosaf at y ddarpariaeth.

Dadleuwn fod y cynnig hwn yn effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr sydd am gael eu haddysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd, ar y cyfan, maint yn gorfod teithio ymhellach oddi wrth eu cartrefi, ac yn sicrhau hwn i ffiniau'r Awdurdod Lleol, i dderbyn y ddarpariaeth honno. Mae dau ganlyniad niweidiol i hynny:

- i. costau cludiant llawer drytach
- ii. teithiau lletchwith, neu anghydnaws ag amserlenni ysgol e.e. a fyddai modd i ddysgwyr gyrraedd yr ysgol yn brydlon? sawl gwahanol fws/trên y byddai angen eu dal er mwyn cyrraedd?

Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen ymgynghorol at asesiad o'r effeithiau uchod; o ganlyniad mae'r ymarfer o bwysu a mesur y manteision ac anfanteision posib yn ddiffygiol, ac o bosib yn annilys.

#### 4. Yr effaith ar swyddi

Mae UCAC wedi ymrwmo i ddiogelu swyddi ac amddiffyn amodau gwaith athrawon a darlithwyr. Yn y cyddestun hwnnw, rydym yn gwbl grediniol mai cam gwag fyddai torri ar drafnidiaeth i ddysgwyr ôl-16 oed.

Heb amheuaeth, os nad oes cludiant am ddim ar gael i ddysgwyr o Ferthyr Tudful i fynychu Ysgol Rhydywaun, mi fydd effaith ar swyddi yn yr ysgol honno.



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@athrawon.com](mailto:ucac@athrawon.com)

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)